



[www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)

## **Aelodaeth o Bwyllgorau Ymchwilio a Phwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg**

### **Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

E-bost/rhif ffôn: [iona@ucac.cymru](mailto:iona@ucac.cymru)

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 1 Rhagfyr 2023, i'r cyfeiriad canlynol:

Y Gangen Deddfwriaeth a Llywodraethiant  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

e-bost: [YmgynghoriadCGA.WG47380@llyw.cymru](mailto:YmgynghoriadCGA.WG47380@llyw.cymru)

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r gofynion ar gyfer y Pwyllgorau?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

**Sylwadau ategol**

Rydym yn croesawu'r cynnydd mewn hyblygrwydd. Mewn rhai achosion, ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth fod yr aelod cofrestredig yn perthyn i'r un categori ag y mae'r person sy'n wynebu'r achos wedi'i gofrestru ynddo. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod aelodaeth rhai categorïau'n fach iawn ac y gallai fod gwrthdaro buddiannau wrth geisio dod o hyd i rywun o'r un categori. Credwn, fodd bynnag, mewn rhai achosion y byddai hi'n fuddiol iawn cael rhywun o'r un categori aelodaeth ar y panel, gan y byddai'r unigolyn hwnnw'n llwyr ymwybodol o ofynion a heriau'r swydd.

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau'r cynnig?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

**Sylwadau ategol**

Rydym yn cytuno gyda'r rhan fwyaf o'r asesiad h.y. y posibilrwydd i gynnull pwyllgorau ynghynt. Nid oes unrhyw sôn yn yr asesiad am unrhyw bosibiliadau negyddol. Er bod y rhan fwyaf o'r effeithiau yn debygol o fod yn gadarnhaol neu yn niwtral, eto i gyd teimlwn y gallai rhai o'r effeithiau fod yn negyddol – er enghraifft, diffyg dealltwriaeth o rai swyddi/rolau a fydd yn arwain at ddiffyg empathi.

**Cwestiwn 3** – A ydych yn cytuno â'n cynigion i wneud diwygiadau amrywiol i Reoliadau 2015?

<b>Cytuno</b>	✓	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 4** – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadi'r Pwyllgorau ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Sylwadau ategol**

Mae'n bosibl y gallai'r newid sicrhau y bydd mwy o bobl ar gael i fod yn gynrychiolwyr cyfrwng Gymraeg.

**Cwestiwn 5** – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r diwygiadau arfaethedig neu eu newid er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

### Sylwadau ategol

**Cwestiwn 6** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.